

Hysbysiad hwylus

Deddf y Môr

Mai 2011

1. Beth yw *Deddf y Môr*?

Mae *Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009*¹ (y cyfeirir ati fel *Deddf y Môr*) yn amlinellu darpariaethau ar gyfer gwell rheolaeth o'r moroedd a dyma'r darn cyntaf o ddeddfwriaeth y DU i ystyried yr amgylchedd morol fel cyfanwaith. Mae *Deddf y Môr* yn gwneud darpariaethau ar gyfer dyfroedd alltraeth y DU (12-200 o forfilltiroedd) a dyfroedd glannau Cymru a Lloegr (0-12 o forfilltiroedd). Ei nod yw sicrhau cefnforoedd a moroedd **glân, iach, diogel, cynhyrchiol a bioamrywiol**, drwy roi gwell systemau ar waith ar gyfer cyflawni datblygiad cynaliadwy'r amgylchedd morol ac arfordirol.²

Mae *Deddf y Môr* yn cynnwys 11 o rannau sy'n ymdrin â: chreu **Sefydliad Rheoli Morol** (MMO) er mwyn cyflawni swyddogaethau morol yn Lloegr (ac yn y DU ar gyfer materion sydd heb eu datganoli); **cynllunio morol**; **trwyddedu morol**; **Parthau Cadwraeth Morol** (MCZs); **rheoli pysgodfeydd** a physgota; **gorfodi**; a **mynediad i'r arfordir**. Mae *Deddf y Môr* yn cynnwys diwygiad i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* er mwyn creu **Parth Cymru**, sy'n cael ei ddiffinio fel y môr sy'n gyfagos i Gymru ac sy'n mynd allan cyn belled â therfynau pysgodfeydd Prydain (200 o forfilltiroedd neu'r llinell ganol rhwng dwy wlad).

2. Beth yw Cynllunio Morol?

Cafodd amgylchedd morol y DU ei reoli a'i reoleiddio'n flaenorol fesul sector. Mae Cyswllt Amgylchedd Cymru (WEL) yn nodi: "uncoordinated and at times reactive decision has resulted in limited progress towards sustainable development, and contributed to the continuing decline in marine biodiversity."³

Mae **Cynllunio Morol** (y cyfeirir ato hefyd fel Cynllunio Gofodol Morol), sy'n ofynnol o dan Ran 3 o *Ddeddf y Môr*, yn darparu ac yn nodi'r cyfeiriad ar gyfer **fframwaith polisi mwy cydlynol** ar gyfer **datblygiad cynaliadwy** amgylchedd morol y DU.⁴

¹ *Deddf Mynediad y Môr a'r Arfordir 2009* (pennod 23) (Saesneg yn unig)

² Papur Ymchwil y Gwasanaeth Ymchwil 09/2345, *Bil Y Môr a Mynediad i'r Arfordir*, Gorffennaf 2009 [fel ar 30 Mawrth 2011]

³ Cyswllt Amgylchedd Cymru, Taflen Friffio Cynllunio Gofodol ar y Môr yng Nghymru, (heb ddyddiad) (Saesneg yn unig)

⁴ Llywodraeth Cymru, *Datblygu cynaliadwy ar gyfer moroedd Cymru: Ein dull o ymdrin â chynllunio morol yng Nghymru*, 16 Chwefror 2011 [fel ar 28 Mawrth 2011]

Datganiad Polisi Morol⁵

Paratôdd a mabwysiodd gweinyddiaethau'r DU **Ddatganiad Polisi Morol** (MPS) ar y cyd ym mis Mawrth 2011. Mae'r Datganiad Polisi Morol yn darparu fframwaith ar gyfer paratoi Cynlluniau Morol rhanbarthol, gan nodi'r gweithgareddau allweddol y mae'n rhaid i'r Cynlluniau Morol eu hystyried ac amlinellu effeithiau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol posibl pob gweithgaredd, er enghraifft pysgodfeydd a thwristiaeth.

Cynlluniau Morol⁶

Bydd Cynlluniau Morol yn nodi **sut y caiff y Datganiad Polisi Morol ei roi ar waith** ac yn nodi blaenoriaethau ar gyfer pob rhanbarth. Ar 16 Chwefror 2011, lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad i gael barn ar ddatblygiad cynllunio morol yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu paratoi **Cynlluniau Morol cenedlaethol ar gyfer rhanbarthau glannau ac alltraeth** Parth Cymru, a'u rhoi ar waith **erbyn 2012/2013**. Bydd cynllunio hefyd yn digwydd ar lefel is-genedlaethol **o fewn** y Cynlluniau Morol hyn er mwyn caniatáu ar gyfer cynllunio rhanbarthol neu leol mwy manwl. Yn ei ymgynghoriad, mae Llywodraeth Cymru'n ceisio barn ar agwedd cynllunio rhanbarthol ar gyfer rhywfaint o'r ardal forol neu'r cyfan ohoni, ac agwedd cynllunio lleol ar gyfer 'ardaloedd lle mae llawer o weithgaredd'. Caiff y Cynlluniau Morol cenedlaethol eu diwygio lle bydd angen er mwyn cynnwys y cynlluniau is-genedlaethol.

Cyn eu mabwysiadu, bydd yn rhaid i Weinidogion Cymru gytuno ar y cynlluniau alltraeth cenedlaethol a chynlluniau'r glannau. Bydd yn rhaid i Lywodraeth y DU hefyd gytuno ar y cynllun alltraeth (a chynllun y glannau os yw'n ymwneud â materion sydd heb eu datganoli). Nid oes gofyniad cyfreithiol ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i graffu ar Gynlluniau Morol cyn eu mabwysiadu. Fodd bynnag, bob chwe blynedd bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod adroddiadau ar roi Cynlluniau Morol Cymru ar waith, gerbron y Cynulliad. **Mae'n rhaid i'r holl benderfyniadau awdurdodi a gorfodi** sy'n effeithio ar yr ardal forol neu a all effeithio arni **fod yn unol â'r Cynlluniau Morol** neu'r Datganiad Polisi Morol lle nad yw Cynllun Morol eto wedi'i fabwysiadu.

⁵ Llywodraeth EM, *[Datganiad Polisi ar Foroedd y DU](#)*, Mawrth 2011 [fel ar 28 Mawrth 2011] (Saesneg yn unig)

⁶ Llywodraeth Cymru, *[Datblygu cynaliadwy ar gyfer moroedd Cymru: Ein dull o ymdrin â chynllunio morol yng Nghymru](#)*, 16 Chwefror 2011 [fel ar 28 Mawrth 2011]

3. Beth yw Trwyddedu Morol?

Mae trwyddedu morol yn rheoli'r pwysau a roddir ar adnoddau morol drwy weithgareddau fel gwaith adeiladu, treillio a chloddio am agregau.⁷ Daw'r system drwyddedu forol newydd i rym yng Nghymru ar **6 Ebrill 2011**⁸ o dan Ran 4 o *Ddeddf y Môr*, gan ddisodli'r trefniadau trwyddedu a hawliau presennol a darparu amrywiaeth ehangach o offer ar gyfer **gorfodi tecach a mwy effeithiol**.⁹ Drwy wneud hyn, bydd y system yn **diogelu'r amgylchedd ac iechyd dynol**, ac yn **atal ymyrraeth â defnydd cyfreithiol o'r môr**.¹⁰ Bydd Uned Caniatadau Morol Llywodraeth Cymru (MCU) yn gyfrifol am orfodi a gweinyddu trwyddedau yn rhanbarthau glannau Cymru, ar wahân i'r diwydiannau olew a nwy ac amddiffyn, a fydd yn dod o dan gyfrifoldeb yr Ysgrifennydd Gwladol. Bydd y Sefydliad Rheoli Morol, a grewyd o dan Ran 1o *Ddeddf y Môr*, yn gyfrifol am drwyddedu mewn rhanbarthau alltraeth drwy'r DU.¹¹

Mae nifer o weithgareddau wedi'u heithrio o drwyddedu morol gan gynnwys y defnydd o offer gwyddonol, rhywfaint o dreillio, llongau a mordwyo. Er bod rhai o'r gweithgareddau hyn wedi'u rheoleiddio o dan Ddeddfau eraill (ee *Deddf Petrolewm 1998* (Saesneg yn unig) a *Deddf Cludo Nwyddau ar y Môr 1995* (Saesneg yn unig)),¹² mae WEL yn galw am reolaeth ychwanegol ar weithgareddau sydd wedi'u heithrio er mwyn sicrhau nad ydynt yn cael effaith sylweddol ar yr amgylchedd morol, er enghraifft drwy ei gwneud yn ofynnol i gael asesiad amgylcheddol o'r gweithgaredd i gyd-fynd â chynigion ar gyfer eithrio.¹³

4. Beth yw Parthau Cadwraeth Morol?

Mae'r Datganiad Polisi Morol yn nodi bod **gweinyddiaethau'r DU wedi ymrwymo i gwblhau rhwydwaith gydlynol ecolegol o Ardaloedd Morol Gwarchoddedig (MPAs) erbyn 2012**.¹⁴ Fodd bynnag, mae dynodiadau Ardaloedd Morol Gwarchoddedig presennol (ee Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (SACs) ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (SPAs)) yn berthnasol i amrywiaeth gyfyngedig o rywogaethau morol a chynefinoedd yn unig a chanfu astudiaeth a gynhaliwyd gan Rwydwaith Gwybodaeth Bywyd Morol Prydain ac Iwerddon (MarLIN) nad yw'r dynodiadau'n **diogelu'r amrediad llawn o fioamrywiaeth ym moroedd Cymru**.¹⁵

⁷ Cyswllt Amgylchedd Cymru, Taflen Friffio Trwyddedu Morol yng Nghymru, (heb ddyddiad) (Saesneg yn unig)

⁸ Llywodraeth Cymru, Jane Davidson (y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai), [*Y diweddaraf ynghylch y Rhaglen Forol yng Nghymru*](#), Datganiad Ysgrifenedig y Cabinet, 18 Mawrth 2011 [fel ar 29 Mawrth 2011]

⁹ Llywodraeth Cymru, [*Is-ddeddfwriaeth o dan Ddeddf Mynediad y Môr a'r Arfordir 2009: Rhan 4, Trwyddedu Morol*](#), 27 Medi 2010 [fel ar 30 Mawrth 2011]

¹⁰ [*Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009*](#) (pennod 23) (Saesneg yn unig)

¹¹ Llywodraeth Cymru, [*Is-ddeddfwriaeth o dan Ddeddf Mynediad y Môr a'r Arfordir 2009: Rhan 4, Trwyddedu Morol*](#), 27 Medi 2010 [fel ar 30 Mawrth 2011]

¹² ibid

¹³ Cyswllt Amgylchedd Cymru, Taflen Friffio Trwyddedu Morol yng Nghymru, (heb ddyddiad) (Saesneg yn unig)

¹⁴ Llywodraeth EM, [*Datganiad Polisi Morol y DU*](#), Mawrth 2011 [fel ar 28 Mawrth 2011] (Saesneg yn unig)

¹⁵ Rhwydwaith Gwybodaeth Bywyd Morol Prydain ac Iwerddon (MarLIN), [*Protecting nationally important marine biodiversity in Wales: Report to Wales Environment Link*](#), Tachwedd 2008 [fel ar 30 Mawrth 2011]

Mae Rhan 5 o *Ddeddf y Môr* yn gwneud darpariaeth ar gyfer creu Parthau Cadwraeth Morol. Gellir dynodi Parthau Cadwraeth Morol ar gyfer yr **holl gynefinoedd a rhywogaethau**, ac ynghyd â mathau eraill o Ardaloedd Morol Gwarchoddedig, byddant yn cyflawni ymrwymiad y DU i greu rhwydwaith ecolegol gydlynol o Ardaloedd Morol Gwarchoddedig erbyn 2012.¹⁶

Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchoddedig Cymru

Ar hyn o bryd, mae dros **36 y cant** o foroedd tiriogaethol Cymru wedi'u dynodi'n Ardaloedd Morol Gwarchoddedig, gan gynnwys 11 o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, 10 o Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig ac un Warchodfa Natur Forol (Ynys Skomer). Bydd **Prosiect Parth Cadwraeth Morol Cymru Llywodraeth Cymru** yn nodi ac yn creu Parthau Cadwraeth Morol yn rhanbarth glannau Cymru, gan fwriadu dynodi **tri neu bedwar Parth Cadwraeth Morol Gwarchoddedig lawn** (HPMCZs)¹⁷ yn y lle cyntaf. **Caiff yr amgylchedd morol cyfan o fewn y Parthau Cadwraeth Morol Gwarchoddedig lawn ei warchod** rhag y prosesau o dynnu a dyddodi unrhyw adnoddau morol (byw neu farw) yn ogystal ag aflonyddwch a achosir gan weithgareddau eraill.¹⁸ Mae Parthau Cadwraeth Morol Gwarchoddedig lawn mewn gwledydd eraill wedi dangos eu bod yn darparu'r lefel uchaf o fudd i fioamrywiaeth o unrhyw fath o ardal forol warchoddedig.¹⁹

Yn seiliedig ar y canllawiau ar ddewis safle'r Prosiect, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2011 ar ôl ymgynghoriad cyhoeddus, caiff **6-12 o Barthau Cadwraeth Morol Gwarchoddedig lawn posibl** eu nodi rhwng mis Mehefin a mis Medi 2011. Bydd y safleoedd posibl hyn yn destun dau gylch o ymgynghori ac unioni. Bydd yr ymgynghoriad yn ceisio gwybodaeth am weithgareddau sy'n digwydd o fewn safleoedd posibl, sut y maent yn effeithio ar y safle a sut y byddai dynodi Parth Cadwraeth Morol Gwarchoddedig lawn yn gwrthdaro â'r gweithgareddau hyn ac yn eu disodli. Dyma'r hyn a nodir yn y canllawiau ar ddewis safle:

Each site will be looked at on its own merits. However in general, where an area is considered to offer a unique contribution to ecosystem functioning, greater weight is likely to be attached to ecological considerations. Where there is a choice of alternative areas which are equally suitable on ecological grounds, socio-economic factors could be more significant in deciding which areas may be designated as a HPMCZ.²⁰

Caiff yr argymhellion terfynol ynghylch y Parth Cadwraeth Morol eu cyflwyno i Weinidogion Cymru rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2012 ac, yn dilyn cyfnod ymgynghori terfynol, caiff penderfyniad ei wneud rhwng **mis Mawrth a mis Mehefin 2013**.²¹

DEFRA, *Bil y Môr a Mynediad i'r Arfordir - Dogfen Bolisi*, Rhagfyr 2008 [fel ar 30 Mawrth 2011] (Saesneg yn unig)

¹⁷ Llywodraeth Cymru, *Prosiect Parthau Cadwraeth Morol Cymru: Canllawiau dewis safleoedd ar gyfer parhau cadwraeth morol lefel gwarchodaeth uchel*, Mawrth 2011 [fel ar 1 Ebrill 2011] (Saesneg yn unig)

¹⁸ *ibid*

¹⁹ Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Llywodraeth Cymru, *Selecting and implementing Highly Protected Marine Reserves in Wales*, 2008 [fel ar 30 Mawrth 2011]

²⁰ Llywodraeth Cymru, *Prosiect Parthau Cadwraeth Morol Cymru: Canllawiau dewis safleoedd ar gyfer parhau cadwraeth morol lefel gwarchodaeth uchel*, Mawrth 2011 [fel ar 1 Ebrill 2011] (Saesneg yn unig)

²¹ *ibid*

Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchoddedig Lloegr

Mae canran lai o ddyfroedd y DU (4 y cant)²² a dyfroedd glannau Lloegr (24 y cant)²³ wedi'u dynodi'n Ardaloedd Morol Gwarchoddedig na dyfroedd glannau Cymru. **Prosiect Parth Cadwraeth Morol Llywodraeth y DU**, dan arweiniad Natural England a'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC), sy'n gyfrifol am nodi Parthau Cadwraeth Morol yn rhanbarth **Glannau Lloegr** a rhanbarthau **alltraeth Cymru a Lloegr**.

Mae canllawiau Natural England a'r JNCC ar gyfer y Prosiect Parthau Cadwraeth Morol, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2010, yn nodi: 'The engagement of stakeholders is a core principle of the MCZ recommendation process'.²⁴ Mae pedwar o brosiectau rhanbarthol wedi bod yn casglu gwybodaeth am yr amgylchedd morol ac yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ddod o hyd i safleoedd Parthau Cadwraeth Morol posibl. Y prosiectau Parthau Cadwraeth Môr Iwerddon (ISCZ) a Finding Sanctuary (rhanbarth de-orllewin Lloegr) sy'n gyfrifol am ranbarth alltraeth Cymru. Mae Finding Sanctuary yn nodi:

Finding Sanctuary is fundamentally about shared decision making. From the earliest planning stages, we are working closely with stakeholders to explore where MCZs could best be located, identifying possible areas of conflict and finding ways of working around them. Identifying Marine Conservation Zones that provide maximum benefits to nature and minimise the impact to stakeholders is central to the success of Finding Sanctuary.²⁵

Ym mis Chwefror 2011, cyflwynwyd y trydydd adroddiad yn cadarnhau enwau'r safleoedd Parthau Cadwraeth Morol a argymhellwyd ar gyfer pob rhanbarth, i'r Panel Cynghori ar Wyddoniaeth (SAP). Bydd y panel yn sicrhau bod y safleoedd yn cadw at Ganllawiau Rhwydwaith Ecolegol y Prosiect. Cafodd dros **100 o Barthau Cadwraeth Morol posibl** gydag **amrywiol raddau o gadwraeth** eu hargymhell, ac mae 10²⁶ o'r rheini yn rhanbarth yr ISCZ a 54²⁷ yn rhanbarth Finding Sanctuary.^{28,29} Mae'r argymhellion terfynol i'w cyflwyno i DEFRA erbyn mis Tachwedd 2011 a byddant yn destun rhagor o ymgynghori cyhoeddus cyn i benderfyniad gael ei wneud erbyn **diwedd 2012**.³⁰

²² Canolfan Ardal Forol Warchoddedig y DU, [Frequently Asked Questions](#), Gwefan [fel ar 1 Ebrill 2011] (Saesneg yn unig)

²³ Natural England, [Marine Protected Areas](#), 24 Mawrth 2011 [fel ar 1 Ebrill 2011]

²⁴ Natural England a'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur, [Project Delivery Guidance on the process to select Marine Conservation Zones](#), Gorffennaf 2010 [fel ar 1 Ebrill 2011]

²⁵ Finding Sanctuary, [About us](#), Gwefan [fel ar 1 Ebrill 2011]

²⁶ Parthau Cadwraeth Môr Iwerddon, [Third Progress Report Summary](#), 11 Mawrth 2011 [fel ar 1 Ebrill 2011]

²⁷ Finding Sanctuary, [Third progress report summary](#), Chwefror 2011 [fel ar 1 Ebrill 2011]

²⁸ Balanced Seas, [Third Progress Report](#), 28 Chwefror 2011 [fel ar 1 Ebrill 2011]

²⁹ Net Gain, [Progress Report for the 3rd Iteration Submission to the Science Advisory Panel](#), Chwefror 2011 [fel ar 1 Ebrill 2011]

³⁰ DEFRA, [Marine Conservation Zones \(MCZs\)](#), 24 Mawrth 2011 [fel ar 1 Ebrill 2011]

5. Sut bydd *Deddf y Môr* yn effeithio ar bysgodfeydd?

Bu Llywodraeth Cymru'n gyfrifol am reoli a gorfodi pysgodfeydd hyd at 12 o fôr filltiroedd ers 2008. Wrth greu Parth Cymru yn Rhan 2 o *Ddeddf y Môr*, **cafodd y rheolaeth dros y swyddogaethau hyn ei ymestyn** i derfynau pysgodfeydd Prydain.³¹ Mae Rhannau 6 a 7 o *Ddeddf y Môr* yn gwneud darpariaethau ar gyfer rheoli pysgodfeydd, gan **ddiwygio nifer o Ddeddfau ac ehangu pwerau** Gweinidogion Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru i reoleiddio a gorfodi gweithgareddau pysgodfeydd. Mae gan Lywodraeth Cymru bellach gyfrifoldeb llawn am reoli a gorfodi pysgodfeydd y môr yng Nghymru, gan gymryd gwaith Pwyllgor Pysgodfeydd Mor De Cymru a rhan Cymru o Gyngor Cynghori Rhanbarthol Dyfroedd Gogledd-orllewin Lloegr. Mae Llywodraeth Cymru'n nodi bod hwn yn gam pwysig yn y broses o wella rheolaeth pysgodfeydd gan y bydd yn creu dull gweithredu mwy ymarferol.³² Yn Lloegr, cafodd Pwyllgorau Pysgodfeydd Môr eu disodli gan 10 o Awdurdodau Pysgodfeydd a Chadwraeth y Glannau, wedi'u rheoli gan y **Sefydliad Rheoli Morol**.³³

Yn ôl Defra bydd *Deddf y Môr o fudd i bysgodfeydd*, er enghraifft drwy ddiogelu stociau pysgod, gwella'r system drwyddedu, atal pysgota anghyfreithlon (IUU) a lleihau'r baich gweinyddol.³⁴ Yn ôl Richard Benyon, Gweinidog Llywodraeth y DU dros yr Amgylchedd Naturiol a Physgodfeydd, ni fydd y **Datganiad Polisi Morol yn niweidiol i gymunedau pysgota** gan y byddai hyn yn groes i'r polisi ar bysgodfeydd a diogelwch bwyd.³⁵ Fodd bynnag, **caiff pysgota ei wahardd o fewn Parthau Cadwraeth Morol Gwarchoddedig lawn yng Nghymru**.³⁶

6. A yw'r elfen Mynediad i'r Arfordir yn effeithio ar Gymru?

Mae Rhan 9 o *Ddeddf y Môr* yn gwneud darpariaeth er mwyn sicrhau mynediad y cyhoedd i'r arfordir yn Lloegr ac mae'n rhoi **pwerau ychwanegol i Weinidogion Cymru wella mynediad i arfordir Cymru**. Bu'r **Rhaglen Gwella Mynediad i Arfordir Cymru** ar waith yng Nghymru ers 2007³⁷ ac ar 5 Mai 2012, Cymru fydd y **wlad gyntaf yn y byd** i fod â llwybr ffurfiol o amgylch ei harfordir cyfan.³⁸

³¹ Cyswllt Amgylchedd Cymru, Taflen Friffio ar Bysgodfeydd Morol yng Nghymru, (heb ddyddiad) (Saesneg yn unig)

³² Papur Ymchwil 10/062 y Gwasanaeth Ymchwil, *Diwygio'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin 2012*, Medi 2010 [fel ar 31 Mawrth 2011]

³³ Y Sefydliad Rheol Morol, *Inshore fisheries management*, Gwefan [fel ar 31 Mawrth 2011]

³⁴ DEFRA, *Factsheet: what the Act means for industry*, 13 Tachwedd 2009 [fel ar 30 Mawrth 2011]

³⁵ Pwyllgor yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, *The Marine Policy Statement: Second Report of session 2010-2011*, 25 Ionawr 2011 [fel ar 29 Mawrth 2011]

³⁶ Llywodraeth Cymru, *Prosiect Parthau Cadwraeth Morol Cymru: Canllawiau dewis safleoedd ar gyfer parhau cadwraeth morol lefel gwarchodaeth uchel*, Mawrth 2011 [fel ar 1 Ebrill 2011]

³⁷ Cyngor Cefn Gwlad Cymru, *Ymweld â'r Arfordir*, Gwefan [fel ar 30 Mawrth 2011]

³⁸ Llywodraeth Cymru, Jane Davidson (y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai), *Agor Llwybr Arfordir Cymru*, Datganiad Ysgrifenedig y Cabinet, 30 Mawrth 2011 [fel ar 1 Ebrill 2011]

Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am agweddau ar Ddeddf y Môr, cysylltwch â **Nia Seaton** (Nia.Seaton@cymru.gov.uk), Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau.

I gael rhagor o wybodaeth am y testunau isod, cliciwch ddwywaith ar y lincs.

- Gwefan [Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009](#) Llywodraeth Cymru
- Papur ymchwil y Gwasanaeth Ymchwil [Marine and Coastal Access Bill](#)
- Hysbysiad Hwylus y Gwasanaeth Ymchwil [Y Datganiad Polisi Morol](#)
- Papur ymchwil y Gwasanaeth Ymchwil [Diwygio'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin 2012](#)
- Gwefan [Prosiect Parthau Cadwraeth Morol Cymru](#)
- Gwefan [Prosiect Parthau Cadwraeth Morol](#) Llywodraeth y DU

Edrychwch ar ein rhestr lawn o [hysbysiadau hwylus](#) yma.

Rhif ymholiad: 11/0824 Hannah Rose

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon drwy'r post i'r Gwasanaeth Ymchwil, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd CF99 1NA neu dros e-bost i Research.Service@wales.gov.uk